Cofnodion Cyfarfod Arferol o **GYNGOR TREF RHUTHUN** gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun ar nos Lun, 16 Chwefror 2015 am 7:00 p.m.

PRESENNOL: Cyng. Stephen Beach (**Maer - Cadeirydd**)
Cyngr. James Bryan, Bob Costain, Elisabeth Culshaw, June Derry, Ken Hawkins, Rosie Hughes-Moseley, Menna Jones, Anne Roberts, Geraint Woolford ac Emrys Wynne.

179. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gyngr. Sioned Foulkes, Simeon Jones a Robert Owen-Ellis.

180. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

181. Y GWIR ANRHYDEDDUS DAVID JONES, A.S.

Cyn ei araith, cyflwynodd Y Gwir Anrhydeddus David Jones, A.S. Blac y Dref i Rick Bevan, o Grosvenor Facilities Management, fel cydnabyddiaeth o'i wasanaeth hir i'r Cyngor Tref a hefyd i'r Cyngor Sir.

Derbyniwyd cyflwyniad wedyn gan Y Gwir Anrhydeddus David Jones, A.S. ddywedodd mai dyma ei ymweliad olaf fel Aelod Seneddol am y sesiwn yma a'i fod yma i wrando ac ymateb i bryderon yr aelodau. Cyfeiriodd yn gyntaf at Ofal Mamolaeth yn Ysbyty Glan Clwyd - mae pryder enfawr ar draws yr etholaeth ac mae'n gobeithio yn fawr y gwnaiff y Bwrdd adolygu eu penderfyniad.. Yn Rhuthun, mae darpariaeth ar gyfer preswylwyr Awelon yn bwnc llosg ac mae wedi cael sicrhad pa bynnag benderfyniad a wneir mai lles y preswylwyr fydd yr ystyriaeth bennaf. Mae Ysgol Llanbedr mae'n debyg wedi cael arbediad - sylwedd adroddiad Llywodraeth Cymru yw bod rhai manylion technegol ar goll yn yr ymgynghoriad a bod y broses o hyfywdra'r ysgol yn ailagor. Mae Trosedd a phlismona yn gyffredinol yn well nawr nac ar unrhyw amser dros y 10 mlynedd diwethaf. Cymerodd gwestiynau gan yr aelodau ar ad-drefnu dwy ysgol Rhuthun a dyfodol Cartrefi Gofal. Diolchwyd iddo gan y Maer.

182. ADRODDIAD Y MAER

Dywedodd y Maer ei fod wedi mynychu'r canlynol ers y cyfarfod diwethaf:

26 Ion	Cyfarfod gyda Jamie Groves, Cyngor Sir Ddinbych parthed Canolfan Grefft Rhuthun.
29 Ion	Cymdeithas Efeillio Rhuthun.
8 Chw	Dathlu Pen-blwydd Beti Watson yn 100 oed
12 Chw	Cyfarfod yn Nantclwyd y Dre i drefnu Gwasanaeth Coffa ar Ddydd Gwener, 27 Mawrth 2015 i Is-gapten Philip Hebdon Lecomber.

183. ADRODDIADAU AELODAU

Cyng. James Bryan	Gwasanaeth yn Eglwys Llanfwrog i groesawu Pennaeth newydd Ysgol Borthyn, Pwyllgor Rheolaeth Canolfan Awelon x 2, Gŵyl Rhuthun x 2
Cyng. Elisabeth Culshaw	Noson 'Ffordd o Fyw'
Cyng. Ken Hawkins	Gwasanaeth yn Eglwys Llanfwrog i groesawu Pennaeth newydd Ysgol Borthyn
Cyng. Menna Jones	Gwasanaeth yn Eglwys Llanfwrog i groesawu Pennaeth newydd Ysgol Borthyn
Cyng. Anne Roberts	Ymlaen Rhuthun

184. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu fel cywir cofnodion y Cyfarfod Arferol a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2015.*

185. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw fater yn codi.

186. PWYLLGOR AMWYNDERAU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2015.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y cofnodion.*

187. PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2015.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y cofnodion.*

188. MARCHNATA ARDAL RHUTHUN

(a) Gofynnwyd i'r aelodau nodi derbyn y swm o **£15,150.00** gan Gyngor Sir Ddinbych sef arian o'r Cynllun Ardal - bydd y swm yma yn cael ei ddangos o dan y pennawd uchod ar Daflenni Ariannol o 1af Ebrill 2015 ymlaen.
***PENDERFYNWYD**:derbyn y manylion.*
(b) Gofynnwyd i'r aelodau gadarnhau newid teitl ar Daflenni Ariannol o 1af Ebrill fel a ganlyn: 'Cydlynydd y Dref' i 'Marchnata Tref Rhuthun'.
***PENDERFYNWYD**:cadarnhau newid teitl.*

189. BYRDDAU LLWYBRAU TREF RHUTHUN

Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr gan Gyngor Sir Ddinbych sydd yn dymuno uwchraddio'r byrddau presennol wedi eu lleoli ym Maes Parcio Cae Ddol a Maes Parcio Stryd y Farchnad.
***PENDERFYNWYD**:derbyn y llythyr a chadarnhau'r uwchraddio. Y bwrdd ym Maes Parcio Stryd y Farchnad i'w ail-leoli rhywle mwy addas.*

190. DIWYGIO LLYWODRAETH LEOL – GRYM I BOBL LEOL

Cyflwynodd Clerc y Dref Bapur Gwyn gan Lywodraeth Cymru ac i gyflwyno sylwadau erbyn Dydd Mawrth, 28 Ebrill 2015. Gellir gweld y ddogfen lawn ar:
http://wales.gov.uk/consultations/localgovernment/power-to-local-people/?skip=1&lang=cy
***PENDERFYNWYD**: bod y Papur Gwyn yn cael ei hastudio gan aelodau o'r Grŵp Archwilio Dogfennau ac i adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref.*

191. GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A494 (WERN FECHAN, RHUTHUN, SIR DDINBYCH) (GWAHARDD AROS) 201-

Derbyniodd yr aelodau fanylion am y Gorchymyn uchod.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y manylion.*

192. ASESIAD RISG BLYNYDDOL

Cyflwynodd Clerc y Dref yr Asesiad Risg Blynyddol.
***PENDERFYNWYD**:derbyn a chadarnhau'r Asesiad Risg Blynyddol.*

193. STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL

Cyflwynodd Clerc y Dref y Strategaeth Buddsoddi Flynyddol.
***PENDERFYNWYD**:derbyn a chadarnhau'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol.*

194. IS-GAPTEN PHILIP HEBDON LECOMBER (LLADDWYD MEWN BRWYDR MAWRTH 1918)

Derbyniodd yr aelodau fanylion am wasanaeth coffaol i'w gynnal am 1:00 p.m. ar ddydd Gwener, 27ain Mawrth 2015 yn Nantclwyd y Dre.

195. CYNGERDD DYDD GWL DEWI SANT- COR Y PORTHMYN

Derbyniodd yr aelodau fanylion am Gyngerdd Dydd Gŵyl Dewi Sant i'w gynnal yn Nantclwyd y Dre ar brynhawn Sul, 1af Mawrth 2015 am 2:00 pm. er budd Elusennau'r Maer.

196. MUDIAD CITTASLOW

Cyflwynodd Clerc y Dref e-bost gan Ysgrifennydd Cymdeithas Ddinesig Rhuthun parthed cyfarfod i drafod yr uchod.

PENDERFYNWYD*:trefnu cyfarfod mewn cydweithrediad a Chymdeithas Ddinesig Rhuthun yn Neuadd y Dref.*

197. CYMDEITHAS SIOE RHUTHUN

Gofynnwyd i'r aelodau gadarnhau tal o £5.00 sef tanysgrifiad blynyddol i Cyng. June Derry, sydd yn gynrychiolydd y Cyngor Dref ar y Mudiad uchod.

PENDERFYNWYD*: cadarnhau talu Tanysgrifiad Blynyddol o £5.00 i Gynghorydd June Derry.*

198. DATGANIAD ARIANNOL

Cyflwynodd Clerc y Dref, fel Swyddog Ariannol Cyfrifol, ei Ddatganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31ain Ionawr 2015.

PENDERFYNWYD*: derbyn a mabwysiadu'r Datganiad Ariannol.*

199. CYFRIFON I'W TALU

Cymeradwywyd yr eitem ganlynol yn y cyfarfodydd Pwyllgorau a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2015.

690	Coya Marketing Ltd			2,925.00

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo talu'r eitemau canlynol:*

D.D.	B.T.	Gwasanaeth band llydan	*	65.76
691	Sandra Williams	Cyfieithu	*	90.00
692	Cyllid y Wlad	Treth ac Yswiriant Gwladol		163.20
693	Cyngor Sir Ddinbych	Cinio Elusennol y Cadeirydd yn Llanelwy - Tocynnau x 2		60.00
694	Aerial Electrics Ltd	Goleuadau Nadolig 2014	*	3,696.00
695	Cymdeithas Sioe Rhuthun	Tanysgrifiad Blynyddol – Cyng. June Derry		5.00

(Mae'r eitemau a nodir gyda * yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £621.96)

200. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau dyddiad cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref fel Nos Lun, 23 Mawrth 2015.*